**ADRAN ADDYSG GWYNEDD**

**YSGOLION UWCHRADD**

**Ysgol y Moelwyn**

**(Cyfun 11 - 16; 335 disgybl)**

## ATHRO/ ATHRAWES Cymraeg a phynciau Dyniaethau

**Yn eisiau:** Swydd am flwyddyn yn y lle cyntaf i ddechrau Medi 2021.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr brwdfrydig a chydwybodol am swydd athro/athrawes i addysgu Cymraeg a phynciau Dyniaethau. Cyfle arbennig i weithio o fewn dalgylch cymunedol a Chymreig y Moelwyn.

Swydd addas ar gyfer:

- Athrawon Cymraeg,
- Athrawon Dyniaethau
- Athrawon â chefndir cynradd sydd â dymuniad gweithio yn y sector uwchradd.

Bydd y cyfrifoldebau dysgu yn ddibynnol ar gryfderau yr ymgeisydd llwyddiannus.

Croesewir ymholiadau/ceisiadau hefyd gan athrawon sydd â diddordeb mewn llwybrau gwahanol i yrfa athro e.e. cynllun hyfforddi graddedigion.

Gellir ystyried ceisiadau rhan amser.

Telir cyflog yn unol â Graddfa Gyflog Athrawon (£27,018 - £41,604) y flwyddyn yn ôl profiad a chymwysterau.

Mae'r gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Gwahoddir unrhyw un sydd â diddordeb a/neu angen mwy o wybodaeth i gysylltu â`r ysgol i drafod yn anffurfiol hefo aelod o`r uwch dîm rheoli.

Gellir cyflwyno cais am y swydd naill ai ar-lein ar wefan Cyngor Gwynedd neu yn uniongyrchol trwy`r post/ebost i`r ysgol. Pecyn cais gan Mrs. Mena Price, Ysgol y Moelwyn, Heol Wynne, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd Ll41 3DW. Ebost: sg@moelwyn.gwynedd.sch.uk Rhif Ffôn 01766 830435.

**DYDDIAD CAU: HANNER DYDD, DYDD MERCHER, 26 MAI, 2021.**

**Rhagwelir cynnal y cyfweliadau am y swydd yma ar ddydd Gwener, 28 Mai, 2021.**

Bydd y Cyngor yn gofyn am gopi o'r dadleniad gan Wasanaeth Datgelu a Gwahardd a chadarnhad o gofrestriad gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg gan yr ymgeisydd llwyddiannus cyn y gallant gychwyn yn y swydd yma.

Mae'r awdurdod hwn wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac mae'n disgwyl y bydd pob un o'i staff a'i wirfoddolwr yn rhannu'r ymrwymiad hwn. This authority is committed to safeguarding and promoting the welfare of children and young people and expects all staff and volunteers to share this commitment.

(This is an advertisement for a Teacher at Ysgol y Moelwyn for which the ability to teach through the medium of Welsh and English is essential)